


# Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru 2023

## Adroddiad Cam Mis Mai

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
67/2023
DYDDIAD CYHOEDDI:
08/06/2023






Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

ISBN Digidol: 978-1-83504-129-1

© Hawlfraint y Goron 2023

Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru 2023: Adroddiad Cam mis Mai

Anthony Lydall, Strategic Research and Insight

Barn yr ymchwilydd ac nid barn Llywodraeth Cymru o reidrwydd yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o fanylion, cysylltwch â:
Tîm Ymchwil a Mewnwelediadau
Croeso Cymru
Grŵp Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: twristiaethymchwil@llyw.cymru

This document is also available in English.
Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

ISBN: 978-1-83504-129-1
8 Mehefin
© Hawlfraint y Goron 2023

Mae'r cynnwys i gyd ar gael o dan Fersiwn 3.0 Trwydded Agored y Llywodraeth, ac eithrio lle nodir fel arall.
http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/

## Cynnwys

1. Prif Ganfyddiadau ..... 2
2. Cefndir a Methodoleg ..... 4
3. Perfformiad a Disgwyliadau ..... 5
4. Gweithio gydag asiantaethau teithio ar-lein ..... 18
5. Bwyd a Diod o Gymru ..... 21
6. Hygyrchedd ..... 24

## 1. Prif Ganfyddiadau

**Dechrau tawel i'r flwyddyn**

1.1 Mae 18% o fusnesau wedi cael mwy o gwsmeriaid hyd yn hyn eleni nag yn yr un cyfnod y llynedd. Mae 38% wedi cael yr un lefel, ond mae 44% wedi cael llai o gwsmeriaid.

1.2 Mae sectorau nad ydynt yn sectorau llety yn gwneud tua'r un peth â'r llynedd ar ôl pwyso a mesur, ond nid yw'r sectorau llety yn gwneud hynny. Dim ond 13% o weithredwyr llety sydd wedi cael mwy o gwsmeriaid na'r llynedd, tra bod bron i hanner (46%) wedi cael llai. Mae'r darlun yn debyg ar draws pob rhanbarth o Gymru.

1.3 Mae sylwadau agored yn awgrymu bod defnyddwyr wedi bod yn archebu teithiau byrrach neu ddim o gwbl. Credir mai diffyg incwm gwario a thywydd gwael yw'r prif resymau.

**Dim llawer o arwydd o fusnes yn codi eto**

1.4 Mae lefelau deiliadaeth cymedrig presennol ar gyfer gweithredwyr llety tua 60% ar gyfer mis Mehefin, Gorffennaf ac Awst. Dywed rhai fod tuedd gref tuag at archebu ar y funud olaf. O ran y perfformiad hyd yn hyn, tywydd a diffyg incwm gwario yw'r prif resymau dros beidio ag archebu ymlaen llaw.

1.5 Mae un o bob pump (20%) o'r holl weithredwyr yn disgwyl cael mwy o gwsmeriaid o Gymru yn 2023 o'i gymharu â 2022, tra bod tua thraean (34%) yn disgwyl cael llai. Mae 22% yn disgwyl cael mwy o ymwelwyr o'r DU (o'r tu allan i Gymru), tra bod 33% yn disgwyl cael llai.

**Mae costau uchel yn dominyddu pryderon**

1.6 Mae tua hanner (49%) yn nodi 'costau ynni uchel' yn ddigymell fel pryder eleni. Mae 14% yn nodi 'costau staff uchel' ac mae 28% yn dweud 'costau gweithredu uchel eraill'.

1.7 Y penbleth i fusnesau yw eu bod yn gwybod bod llawer o ddefnyddwyr yn ei chael yn anodd gyda chostau byw ac felly mae'n anodd iddynt godi eu prisiau i dalu am orbenion uwch.

**Cynnig bwyd a diod o Gymru**

1.8 Ar nodyn mwy cadarnhaol, mae mwyafrif (72%) y gweithredwyr sy'n cynnig / gwerthu bwyd a diod i'w cwsmeriaid yn fwriadol yn ceisio cynnig / gwerthu cynnyrch o Gymru. Yn fwyaf cyffredin mae hyn yn gynnyrch llaeth (61% o'r rhai sy'n cynnig cynnyrch o Gymru), cig (58%) a chynhyrchion becws (58%).

**Cymryd hygyrchedd o ddifrif**

1.9 Ar nodyn cadarnhaol hefyd, mae 70% o fusnesau wedi cymryd camau i wneud eu busnes yn fwy hygyrch i bobl ag anghenion hygyrchedd. Y camau mwyaf cyffredin yw gosod rampiau

(mae 38% yn ddigymell o'r holl weithredwyr wedi gwneud hynny), toiledau hygyrch (36%), hyfforddi staff ar sut i ddiwallu anghenion hygyrchedd (21%) a chawodydd heb risiau (20%).

# 2. Cefndir a Methodoleg

## Beth yw Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru?

2.1 Cynlluniwyd Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru i roi adborth cyflym ar sut mae'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru yn perfformio ar gyfnodau allweddol yn ystod y flwyddyn. Mae’r cam hwn yn edrych ar berfformiad ar gyfer y flwyddyn hyd yn hyn, sydd wedi cynnwys nifer o wyliau banc, ac mae’n ymdrin â disgwyliadau ar gyfer yr haf a gweddill 2023. Mae pynciau ad-hoc y tro hwn yn cynnwys cynnig bwyd a diod o Gymru, defnyddio trefnwyr teithiau ar-lein a hygyrchedd.

## Sut y cynhaliwyd yr arolwg?

2.2 Rydym wedi cynnal 902 o gyfweliadau dros y ffôn. Mae canlyniadau'r cwestiynau a ofynnwyd i bawb yn gywir i ±3.3%. Mae cydbwysedd y sampl fesul rhanbarth a sector yn adlewyrchu'n fras y diwydiant yng Nghymru.


| Sector / Rhanbarth | Gogledd | Canolbarth | De-orllewin | De-ddwyrain | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Llety â gwasanaeth | 92 | 49 | 68 | 49 | **258** |
| Hunanddarpar | 75 | 64 | 84 | 48 | **271** |
| Meysydd carafanau / gwersylla | 48 | 21 | 39 | 10 | **118** |
| Hostelau | 9 | 3 | 5 | 4 | **21** |
| Atyniadau | 34 | 25 | 25 | 18 | **102** |
| Gweithredwyr gweithgareddau | 14 | 6 | 14 | 7 | **41** |
| Bwytai / tafarndai / caffis | 25 | 20 | 26 | 20 | **91** |
| **Cyfanswm** | **297** | **188** | **261** | **156** | **902** |

2.3 Mae 60% o'r busnesau yn y sampl yn cael eu graddio gan Croeso Cymru. Mae'r samplau sydd wedi eu graddio a'r samplau nad ydynt wedi eu graddio wedi eu gwasgaru ar draws y gwahanol ranbarthau a sectorau ar wahân i fwytai / tafarndai / caffis, nad ydynt yn cael eu graddio.

2.4 Cynhaliwyd pob cyfweliad dros y ffôn gyda pherchnogion neu reolwyr busnesau rhwng 9 ac 17 Mai.

## 3. Perfformiad a Disgwyliadau

### Perfformiad yn y flwyddyn hyd yn hyn – fesul sector




*Mae atebion 'ddim yn gwybod' a 'ddim yn berthnasol' wedi eu heithrio*

Maint y sampl: 860

### Dechrau tawel i'r flwyddyn

3.1 Nid yw lefelau ymwelwyr yn y diwydiant hyd yn hyn eleni wedi cyfateb i'r un cyfnod y llynedd. Mae'r sectorau atyniadau a bwytai/tafarndai/caffis wedi dangos perfformiad eithaf cytbwys yn gyffredinol, ond mae gweithredwyr llety wedi'i chael yn anodd cyrraedd lefelau 2022 hyd yn hyn.

### Tywydd gwael a diffyg incwm gwario

3.2 Ymestynnodd y tywydd oer trwy fis Mawrth ac i ryw raddau i fis Ebrill hefyd. Ynghyd â diffyg incwm gwario, mae gweithredwyr llety wedi bod yn dawel iawn.

> *"Nid yw wedi bwrw glaw cymaint ag ymhellach i'r de ond mae'n oer iawn. Gan fod y rhan fwyaf o'n gwesteion eisiau gwneud gweithgareddau awyr agored, mae'n rhy oer i rai pobl."*
> Llety hunanddarpar, Gogledd

> *"Dw i'n meddwl ei bod hi'n mynd i fod yn flwyddyn wirioneddol wael. Mae rhai yn dweud ei fod yn ymwneud â phobl yn mynd dramor ond dwi ddim yn credu hynny. Dwi'n meddwl nad oes gan bobl ddigon o arian o gwbl. Roedd ein hasiantaeth yn rhagweld y byddai'n flwyddyn wych ond hyd yn hyn mae'n ofnadwy."*
> Llety hunanddarpar, De-orllewin


**Atgyfodiad mewn teithiau ysgol ar gyfer atyniadau**

3.3 Yn ystod y pandemig, dioddefodd llawer o atyniadau yn sgil colli'r farchnad ysgolion – sy'n bwysig yn ystod dyddiau'r wythnos yn ystod y tymor. Mae'n ymddangos bod y farchnad hon bellach wedi bownsio'n ôl a dyma un o'r rhesymau pam mae'r sector wedi gwneud yn well na'r rhan fwyaf hyd yn hyn eleni.

*"Mae llawer o'n busnes yn dod o deithiau ysgol. Ers Covid, mae ysgolion yn awyddus i wneud mwy o'r math hwn o beth fel ysgogiad ychwanegol y gallai'r plant fod wedi'i golli."*
Atyniad, Canolbarth

*"Rydym yn llawn hyd at ganol mis Medi ar ddyddiau'r wythnos gydag ysgolion"*
Atyniad, y Gogledd

## Perfformiad yn y flwyddyn hyd yn hyn – fesul rhanbarth





*Mae atebion 'ddim yn gwybod' a 'ddim yn berthnasol' wedi eu heithrio*

**Dechrau tawel ym mhob rhanbarth**

3.4 Mae'r dechrau tawel i'r flwyddyn i'w weld ym mhob un o'r pedwar rhanbarth yng Nghymru.

*"Distaw iawn eleni. Rydyn ni'n meddwl y bydd hi'n dawel iawn wrth symud ymlaen."*
Parc carafanau, y Gogledd

## Effaith gŵyl banc y coroni




### Effaith gadarnhaol gyfyngedig ar gydbwysedd

3.5 Cafwyd gŵyl banc ychwanegol ddydd Llun 8 Mai yn sgîl coroni'r Brenin Siarl – gan wneud tri phenwythnos gŵyl banc mewn un mis, hefyd heb fod yn hir ar ôl gwyliau banc y Pasg. Dywed rhai gweithredwyr ei fod yn anffodus wedi troi allan i fod yn un ŵyl banc yn ormod ac felly roedd yr effaith ar fusnes yn gyfyngedig, yn enwedig gan iddo ostwng ar adeg pan fo costau byw wedi codi. Mae'r canlyniadau uchod yn adlewyrchu'r darlun ym mhob sector a rhanbarth.

*"Roedd gwyliau banc yn rhyfedd oherwydd roedd yn gyfnod tawel iawn i fusnes – o bosibl oherwydd bod gormod gyda'i gilydd"*
Gweithredwr gweithgareddau, Gogledd

*"Gormod o wyliau banc mewn cyfnod byr o amser. Roeddem ar ein colled oherwydd gormodeddr."*
Parc carafanau, De-orllewin

*"Roedd gŵyl y banc ychwanegol yn ormodedd mewn gwirionedd gan nad oes gan bobl yr arian i fynd allan drwy'r amser."*
Llety â gwasanaeth, Canolbarth

### Tywydd gwael ar yr amser anghywir

3.6 Cafodd rhywfaint o effaith bosibl penwythnos gŵyl y banc ychwanegol ei difetha gan dywydd gwael.

*"Fe wnaeth y tywydd gŵyl y banc yma ddifetha unrhyw gynnydd mewn cwsmeriaid ar gyfer y coroni"*
Atyniad, De-orllewin

**Roedd pobl yn aros gartref ar gyfer partïon lleol neu i wylio'r teledu**

3.7 Rheswm arall dros effaith gadarnhaol gyfyngedig oedd bod pobl yn dewis aros gartref i wylio'r digwyddiad ar y teledu neu roeddent yn mynd i bartïon coroni lleol.

*"Roedd mor dawel ar ddiwrnod y coroni"*
Tafarn, De-orllewin

*"Ar gyfer gŵyl banc y coroni, roedden ni'n llawn a gwnaeth y dafarn yn dda iawn ar y dydd Sul pan oedd y tywydd yn well – dim cymaint ar y dydd Sadwrn, gan fod pawb yn gwylio'r coroni ar y teledu"*
Llety hunanddarpar, De-orllewin

**Ond gwnaeth rhai busnesau yn dda oherwydd gŵyl y banc ychwanegol**


3.8 Gwelodd tua un o bob pump (21%) effaith gadarnhaol gan y coroni.

*"Roedd penwythnos y coroni yn benwythnos hirach o archebion prysur iawn"*
Llety â gwasanaeth, y De-ddwyrain

*"Roedd yn brysur iawn yn yr ardal ar gyfer y coroni, a oedd yn dda i'r busnesau lleol"*
Llety â gwasanaeth, y Gogledd

*"Roedd penwythnos y coroni yn brysur iawn i ni gydag archebion penwythnos hir"*
Parc carafanau, y Gogledd

## Disgwyliadau fesul marchnad




*'Mae atebion 'ddim yn gwybod' a 'ddim yn berthnasol' wedi eu heithrio*

**Disgwyliadau tawel**

3.9 Mae dechrau araf y flwyddyn a'r diffyg archebion ymlaen llaw (a drafodir nesaf o dan C4) yn arwain at ddisgwyliadau tawel eleni, yn enwedig ar gyfer y farchnad ddomestig. Mae arwyddion i rai y gallai lefelau ymwelwyr tramor godi.

*“Rydyn ni ychydig yn bryderus wrth symud ymlaen … Mae’n ymddangos bod gan bobl naill ai’r arian i fynd dramor a’u bod yn gwneud hynny, neu nad oes ganddynt yr arian i wneud unrhyw beth o gwbl.”*
Parc carafanau, y Gogledd

*“Rydw i wedi cael 50% llai o gwsmeriaid na'r llynedd. Rydw i'n adnabod pobl yn y busnes hwn nad oes ganddynt un wythnos o wyliau'r haf wedi'i harchebu. Rydw i'n wag o 26 Mai i 30 Mehefin. Mae'n anarferol.Dydw i erioed wedi cael bwlch fel hyn o’r blaen mewn 30 mlynedd.”*
Llety hunanddarpar, De-orllewin

*“Rydyn ni’n cael mwy o westeion tramor nawr, yn enwedig o Ogledd America ac Awstralia”*
Llety â gwasanaeth, Gogledd

*“Mae llawer mwy o gwsmeriaid tramor wedi ymddangos, sydd wedi bod yn duedd dda i’w gweld”*
Llety â gwasanaeth, Gogledd


**Mae gweithredwyr nad ydynt yn weithredwyr llety yn fwy cadarnhaol**

3.10 Mae disgwyliadau yn gyffredinol yn fwy cadarnhaol ymhlith y rhai nad ydynt yn weithredwyr llety nag ymhlith gweithredwyr llety - yn dilyn yr un llinellau â pherfformiad y flwyddyn hyd yn hyn. Mae 35% o weithredwyr nad ydynt yn weithredwyr llety yn disgwyl cael mwy o ymwelwyr o’r DU (o’r tu allan i Gymru) eleni, o’i gymharu â 24% sy’n disgwyl cael llai. Mewn cyferbyniad, mae 17% o weithredwyr llety yn disgwyl cael mwy o ymwelwyr o'r DU (y tu allan i Gymru), ond mae 36% yn rhagweld y byddant y cael llai.

**Mae De-ddwyrain Cymru yn fwy cadarnhaol**

3.11 Mae busnesau yn Ne-ddwyrain Cymru yn fwyaf cadarnhaol yn gyffredinol nag yng ngweddill Cymru. Mae tua chwarter (27%) o fusnesau yn Ne-ddwyrain Cymru yn disgwyl cael mwy o ymwelwyr o'r DU (y tu allan i Gymru) na’r llynedd, o’i gymharu â 24% sy’n disgwyl cael llai. Tra yng ngweddill Cymru, mae 21% yn disgwyl i nifer yr ymwelwyr o’r DU (y tu allan i Gymru) fod yn fwy, ond mae 35% yn rhagweld gostyngiad.

## Archebion ymlaen llaw (gweithredwyr llety)




*Mae'r defnydd cyfartalog a archebir ar gyfer pob mis yn cynrychioli busnesau sy'n cymryd archebion am y mis hwnnw*

**Mae tueddiad archebu munud olaf yn gwneud rhagfynegiadau yn anodd**

3.12 Mae lefelau archebu presennol ar gyfer yr haf yn peri pryder i rai gweithredwyr gan eu bod yn dibynnu ar y tymor brig i roi sybsideiddio ar gyfer adegau tawelach y flwyddyn. Fodd bynnag, mae rhai yn dweud bod tueddiad cryf tuag at archebu munud olaf eleni, ac felly mae'n anodd dweud eto sut y bydd yr haf yn troi allan.

*“Mae pobl yn archebu funud olaf nawr a dim ond yn aros am ddwy i dair noson, o gymharu â deng mlynedd yn ôl, pan fyddai pobl yn archebu ymhell ymlaen llaw ac yn aros am wythnos gyfan”*
Llety hunanddarpar, Canolbarth

*“Mae pawb yn archebu yn hwyrach. Byddwn ni'n poeni am fod yn dawel ac yna ymhen wythnos, byddwn ni'n llawn.”*
Llety â gwasanaeth, y Gogledd

*“Byddai mis Gorffennaf a mis Awst fel arfer yn llawn erbyn hyn. Mae popeth yn funud olaf.”*
Llety hunanddarpar, Gogledd

**Diffyg sicrwydd ynghylch incwm gwario**

3.13 Credir bod costau byw cynyddol yn rheswm allweddol dros lefelau tawel o archebion ymlaen llaw. Mae rhai cwsmeriaid yn y pen draw yn archebu funud olaf pan fyddant yn gwybod beth allant ei fforddio.

*“Mae archebion wrth symud ymlaen yn dawelach na’r llynedd. Ym mis Gorffennaf, mae gen i dair wythnos yn wag. Ym mis Awst, pedair wythnos yn wag. Ym mis Medi, tair wythnos yn wag. Dyma’r flwyddyn gyntaf erioed i hyn ddigwydd … Mae’r cwsmeriaid rheolaidd fel arfer yn dod dwy neu dair gwaith y flwyddyn ond maen nhw hyd yn oed yn torri lawr.”*
Llety hunanddarpar, De-orllewin

*“Mae’n araf iawn eleni. Fe wnes i wirio Google ac rydyn ni 30% i lawr ar chwiliadau.”*
Parc carafanau, Gogledd

**Fodd bynnag, mae busnes yn edrych yn addawol i rai gweithredwyr**

3.14 Mae rhai gweithredwyr yn teimlo'n gadarnhaol iawn am lefel eu harchebion. Mae'r farchnad briodasau yn edrych yn gryf iawn eleni ar gyfer busnesau sy'n ei gwasanaethu.


*“Mae priodasau yn ein cadw ni’n brysur am weddill yr haf”*
Llety â gwasanaeth, Gogledd


*“Rydyn ni’n disgwyl i hon fod yn flwyddyn wych. Mae’r niferoedd yn edrych yn dda iawn ac rydym yn disgwyl y byddwn yn llawn ar gyfer yr haf erbyn diwedd mis Mai.”*
Llety hunanddarpar, Gogledd


*“Efallai ein bod ni’n eithriad ond rydyn ni’n hollol gadarnhaol.Rydym eisoes wedi cael 50% o archebion, sef ein nifer arferol ar gyfer yr adeg hon o'r flwyddyn. Gyda thipyn o lwc a thywydd da, fe gawn ni flwyddyn dda.”*
Llety â gwasanaeth, Canolbarth

3.15 Mae lefel resymol o gysondeb mewn archebion ymlaen llaw ar draws y gwahanol sectorau llety a rhanbarthau yng Nghymru. Dangosir canlyniadau manwl fesul sector a mis isod.


## Archebion ymlaen llaw fesul sector







## Hyder mewn rhedeg yn broffidiol




### Lefelau cymysg o hyder

3.16 Mae tua thri o bob pump (59%) o weithredwyr ar hyn o bryd yn teimlo'n hyderus ynghylch rhedeg y busnes yn broffidiol eleni. Er mai mwyafrif yw hwn, fel arfer mae gweithredwyr mewn hwyliau mwy bywiog pan fydd prif dymor yr haf ar fin digwydd, ac mae lefelau hyder wedi gostwng ers mis Chwefror *(dangosir uchod)*. Mae costau gweithredu uchel ac chwmpas cyfyngedig i godi prisiau yn ystod cyfnod o gostau byw uchel i ddefnyddwyr yn ei gwneud hi'n heriol i aros yn broffidiol.

*“Mae pobl yn archebu munud olaf iawn ac maen nhw i gyd yn chwilio am fargeinion. Dwi ddim yn gwneud llawer o elw gan fod fy mhrisiau yn isel hefyd.”*
Llety hunanddarpar, Gogledd

*“Mae pethau'n edrych yn gwbl enbyd. Mae’r holl asiantaethau rydyn ni’n gweithio gyda nhw eisiau i ni ollwng cost gwyliau i ddenu’r un lefel o gwsmeriaid, ond mae hynny’n ein gadael ni ar golled enfawr, gan fod popeth yn mynd yn ddrytach i ni, nid yn rhatach.”*
Llety hunanddarpar, De-ddwyrain

*"Ni all pobl fforddio mynd i ffwrdd felly rydyn ni'n ceisio peidio â chodi'r prisiau ond rydyn ni'n gwneud llai a llai o elw."*
Llety hunanddarpar, Canolbarth

3.17 Mae gan rai o'r gweithredwyr sy'n teimlo'n fwy cadarnhaol ffrydiau refeniw gwahanol i'w busnes. Gallant groes-sybsideiddio colledion os oes angen.


*"Gyda'n hystafelloedd digwyddiadau, arlwyo/bwyty a llety rydyn ni'n meddwl ein bod ni mewn sefyllfa eithaf da. Rydyn ni'n bositif."*
Llety â gwasanaeth, De-orllewin

**Gwahaniaethau yn ôl sector a rhanbarth**

3.18 Mae hyder i weithredu'n broffidiol eleni ar ei uchaf yn y sector bwytai / tafarndai / caffis, lle mae 30% yn 'hyderus iawn' ac mae 44% yn 'weddol hyderus'.

3.19 Yn ôl rhanbarth, mae hyder ar ei uchaf yn Ne-ddwyrain Cymru, lle mae 21% yn 'hyderus iawn' ac mae 51% yn 'weddol hyderus'

## Rhesymau i fod yn gadarnhaol




### Rhai rhesymau dros deimlo'n galonogol


3.20 Mae gweithredwyr yn rhoi amrywiaeth o resymau dros deimlo'n gadarnhaol, er nad oes un rheswm unigol yn sefyll allan fel un a grybwyllwyd gan fwy na lleiafrif o ymatebwyr. 'Mae 'cynnyrch / cynnig eu hunain' yn ateb eithaf cyffredin ymhlith gweithredwyr nad ydynt yn weithredwyr llety (mae 34% wedi dweud hyn). Mae cwsmeriaid sy'n dychwelyd yn hynod bwysig mewn rhai sectorau – dyma'r prif reswm dros deimlo'n bositif yn y sectorau hunanddarpar a charafanau a gwersylla.

*"Mae popeth yn mynd fel arfer ar y cyfan oherwydd lefel uchel o gwsmeriaid sy'n dychwelyd. Nid ydyn ni'n cael ein taro gymaint gan y llanw o bethau ag y gallai rhai gweithredwyr eraill."*
Parc carafanau, De-orllewin

*"Gobeithio am flwyddyn dda. Mae llawer o'n cwsmeriaid yn gwsmeriaid sy'n dychwelyd."*
Llety hunanddarpar, Gogledd

*“Rydw i'n cael llawer o archebion nawr ein bod wedi buddsoddi yn ein gwefan ac wedi defnyddio Google review ... Os ydych chi'n gwybod beth rydych chi'n ei wneud mewn busnes, byddwch chi'n iawn.”*
Gweithredwr gweithgareddau, De-orllewin

## Rhesymau dros bryderu




### Mae costau uchel yn dominyddu pryderon

3.21 Mae pedwar o'r pum prif reswm dros bryderu yn ymwneud yn uniongyrchol â chostau / prisiau uwch naill ai i'r busnes neu eu cwsmeriaid.

*“Mae’r costau cynyddol yn mynd i effeithio ar y busnes ond allwch chi ddim codi eich pris oherwydd y bydd yn codi ofn ar bobl ac os byddwch chi’n gadael eich prisiau, byddwch ond yn cael digon i wneud bywoliaeth.”*
Llety â gwasanaeth, Gogledd

*"Mae ein biliau ynni tua 50% yn fwy. Mae'n gwneud gweithredu fel elusen yn anodd iawn."*
Atyniad, De-ddwyrain

*"Mae ein digwyddiadau mawr fel y rhai mwy prif ffrwd a gwyliau yn gwneud yn dda iawn. Y cynyrchiadau theatr llai sy'n dioddef. Pan fydd gan bobl lai o incwm gwario, maen nhw'n dod i lai o ddigwyddiadau fel y rhain. Bydden nhw fel arfer yn dod i ychydig o sioeau; nawr maen nhw'n dewis."*
Atyniad, Canolbarth

3.22 I rai busnesau, yn enwedig atyniadau, nid yw diffyg incwm gwario defnyddwyr o reidrwydd yn lleihau lefelau ymwelwyr, ond mae'n golygu bod ymwelwyr yn gwario llai pan fyddant yno.

*"Mae llawer mwy o bobl yn dod â phecynnau bwyd yn lle prynu bwyd yn uniongyrchol gennym ni"*
Atyniad, Gogledd

*"Y prif beth rydyn ni wedi sylwi arno yw ei bod yn ymddangos bod llai o wariant eilaidd. Efallai y bydd pobl yn dod i'r rheilffordd ond wedyn ddim yn gwario arian yn y caffi na'r siop."*
Atyniad, Gogledd

**Polisïau Llywodraeth Cymru**

3.23 Mae sawl polisi gan Lywodraeth Cymru ar gamau datblygu amrywiol sy'n achosi lefelau uchel o bryder, yn fwyaf arwyddocaol y 'rheol 182 diwrnod'. Gallai hyn olygu bod llawer o weithredwyr hunanddarpar yn dod yn atebol am dalu cyfradd treth gyngor ddomestig premiwm ar 'ail gartref' yn lle bod yn gymwys ar gyfer ardrethi annomestig fel y maent wedi bod yn ei wneud.

3.24 Mae bron i hanner (44%) y gweithredwyr hunanddarpar wedi cyfeirio at bolisïau Llywodraeth Cymru fel pryder heb gael eu hannog. Mae'r effeithiau a ddyfynnwyd ar weithredwyr yn cynnwys gostwng prisiau i fodloni'r lefel deiliadaeth ofynnol, lefelau uchel o straen, ac mewn rhai achosion, rhoi'r gorau i fasnachu.

*"Rydw i wedi gorfod cadw fy mhrisiau'n isel i ddod â chwsmeriaid i mewn i lenwi'r gofyniad 182 diwrnod felly dydw i ddim yn disgwyl blwyddyn hynod broffidiol eleni."*
Llety hunanddarpar, Gogledd

*"Erbyn mis Hydref, os nad ydym wedi bodloni'r 182 diwrnod, efallai y bydd angen i ni roi gwyliau i ffwrdd. Nid yw unrhyw un am weithio am ddim.Mae'n bryder mawr."*
Hunanddarpar, De-orllewin

3.25 Mae'r ardoll twristiaeth arfaethedig hefyd yn achosi peth pryder. Dywed rhai gweithredwyr eu bod yn credu y gallai rwystro twristiaeth ddomestig i Gymru.

*"Mae llawer o'n cwsmeriaid yn poeni am y dreth dwristiaeth. Rydyn ni wedi cael gwybod eu bod nhw wedi trefnu eu gwyliau i Gymru cyn i'r dreth ddod i rym."*
Parc carafanau, Gogledd

*“Rydyn ni ar y ffin [gyda Lloegr] ac wedi cael gwybod yn uniongyrchol gan rai o’n cwsmeriaid tymhorol arferol y gallen nhw ailystyried gwyliau yng Nghymru pe bai treth dwristiaeth yn dod i mewn.”*

Parc carafanau, Gogledd

## 4. Gweithio gydag asiantaethau teithio ar-lein

## Yn ôl sector




*Holwyd C8 i weithredwyr llety*

**Mae'r mwyafrif yn gweithio gydag asiantaethau teithio ar-lein**

4.1 Mae tri o bob pedwar (75%) o weithredwyr llety yn gweithio gydag o leiaf un trefnydd teithiau ar-lein Mae hyn yn amrywio yn ôl sector llety, a ddangosir uchod. Nid yw'r gwahaniaethau yn ôl rhanbarth yn sylweddol.

**Gall pobl warafun defnyddio trefnwyr teithiau ar-lein**

4.2 Er bod y mwyafrif o weithredwyr llety yn defnyddio trefnwyr teithiau ar-lein, nid ydynt o reidrwydd yn dymuno gwneud hynny. Mae rhai trefnwyr teithiau ar-lein yn cymryd comisiwn sylweddol allan o'r ffin elw, a byddai'n well gan weithredwyr beidio â'i cholli. Fodd bynnag, gall peidio â defnyddio trefnwyr teithiau ar-lein olygu cael eich gwthio allan o'r farchnad.

*“Mae llwyfannau fel booking.com yn hanfodol y dyddiau hyn. Mae pobl yn chwilio am adolygiadau ac yn penderfynu ble i aros yn seiliedig ar eich adborth.”*
Llety hunanddarpar, De-ddwyrain

*“Rydyn ni'n ceisio gwthio am fwy o archebion uniongyrchol trwy ein gwefan ein hunain yn ddiweddar, a fydd, gobeithio, yn helpu i arbed cyfraddau gyda threfnwyr teithiau ar-lein”*
Llety â gwasanaeth, De-orllewin

*“Rydyn ni'n defnyddio llawer o drefnwyr teithiau ar-lein gan ei bod yn anodd i ni gystadlu â nhw. Dim ond oherwydd nad oes gennym ni ddewis y byddwn ni'n eu defnyddio. Mae cymaint o [weithredwyr gydag] Airbnb nawr. Roedden ni arfer bod yr*

*unig lety yn yr ardal ond erbyn hyn mae 16 neu 17.Mae pobl yn defnyddio eu siediau!"*
Llety â gwasanaeth, De-orllewin


**Defnydd dewisol**

4.3 Mae rhai busnesau yn defnyddio trefnwyr teithiau ar-lein i lenwi lle yn ystod amseroedd tawelach. Mae eraill yn osgoi eu defnyddio yn gyfan gwbl os oes ganddynt ddigon o gwsmeriaid rheolaidd i ymdopi.

*"Rydw i'n defnyddio'r trefnydd teithiau ar-lein i ychwanegu at leoedd rhydd. Rydw i'n gobeithio dianc rhag eu defnyddio, gan eu bod mor ddrud."*
Llety â gwasanaeth, De-orllewin

*"Rydw i'n rhy hen i ymgysylltu â threfnwyr teithiau ar-lein a'r cyfryngau cymdeithasol. Mae fy holl gwsmeriaid yn gwsmeriaid sy'n dychwelyd; mae rhai eisoes yn gwsmeriaid ail genhedlaeth."*
Llety hunanddarpar, Canolbarth

## Dewis o drefnydd teithiau ar-lein




*Holwyd C9 i weithredwyr llety sy'n defnyddio trefnwyr teithiau ar-lein*

**Ychydig o gyfranogwyr  pwerus**

4.4 Mae'r diwydiant trefnwyr teithiau ar-lein yn cael ei ddominyddu gan ychydig o gwmnïau. Y rhain yn fwyaf nodedig yw booking.com yn y sector â gwasanaeth (87% o weithredwyr â gwasanaeth yng Nghymru sy'n defnyddio trefnydd teithiau ar-lein yn defnyddio booking.com) ac Airbnb (49% yn y sector hunanddarpar). Pitchup (40%) yw'r ateb pennaf ymhlith meysydd carafanau a gwersylla. Y tu hwnt i'r ychydig chwaraewyr dominyddol, mae llawer o rai eraill yn cystadlu am sylw yn y farchnad.

**Nid yw pŵer yn cael ei werthfawrogi**

4.5 Nid yw llawer o ddefnyddwyr trefnwyr teithiau ar-lein a rhai nad ydynt yn eu defnyddio yn hoffi lefel yr oruchafiaeth sydd gan y chwaraewyr gorau yn y diwydiant.

*"Rydw i'n gresynu'n fawr at safleoedd fel Airbnb a'r mewnlifiad dilynol o eiddo rhent heb ei reoleiddio"*
Llety â gwasanaeth, Gogledd

*"Fyddwn ni byth yn defnyddio platfformau fel Airbnb. Rydyn ni'n hysbysebu'n llwyddiannus ar y cyfryngau cymdeithasol. Rydyn ni'n ystyried Airbnb fel bygythiad i'n busnes."*
Llety hunanddarpar, Gogledd

*"Rydyn ni'n ystyried ymuno â booking.com oherwydd bod ein niferoedd mor isel ond mae'n amhersonol ac ni allaf baratoi'r ystafell yn iawn oherwydd nad ydw i byth yn gwybod pwy sy'n dod. Rydyn ni ar y pwynt o ofyn am ba hyd y gallwn ni barhau i wneud hyn."*
Llety â gwasanaeth, Gogledd

## Data trefnwyr teithiau ar-lein ar gyfer cynllunio busnes


4.6 Gellir defnyddio data trefnwyr teithiau ar-lein mewn nifer o ffyrdd, e.e. i edrych ar y mathau o grwpiau sy'n archebu neu'n cynllunio ar gyfer busnes yn y dyfodol yn seiliedig ar ddata archebu. Mae tua chwarter (23%) o'r rhai sy'n defnyddio trefnwyr teithiau ar-lein yn dweud eu bod yn defnyddio'r data ar gyfer cynllunio busnes. Mae'r gyfran uchaf (28%) yn y sector gwasanaeth. Nid yw'r canlyniadau'n amrywio'n sylweddol yn ôl rhanbarth.

*"Rydw i wedi sylwi bod achosion o ganslo ar booking.com yn fwy rheolaidd felly rydyn ni'n agor booking.com yn ddiweddarach y flwyddyn nesaf i gael cymhareb uwch o archebion o ffynonellau eraill sy'n fwy dibynadwy"*
Hostel, Gogledd

*"Rydyn ni'n defnyddio trefnwyr teithiau ar-lein ac yna'n defnyddio'r data i olrhain ble mae pobl yn dod o hyd i ni, p'un a ydyn nhw'n defnyddio gwefannau amgen"*
Llety hunanddarpar, Gogledd

## 5. Bwyd a Diod o Gymru

### Cynnig/gwerthu bwyd a diod o Gymru




*Holwyd C12 i fusnesau sy'n cynnig neu'n gwerthu bwyd a diod i'w cwsmeriaid. Mae'r seiliau isel ar gyfer hosteli a darparwyr gweithgareddau yn golygu nad yw eu canlyniadau'n ddigon cadarn i'w dangos ar y siart uchod.*

#### Cefnogaeth gref i gynnyrch o Gymru

5.1 Mae mwyafrif (72%) o weithredwyr sy'n cynnig / gwerthu bwyd a diod i'w cwsmeriaid yn ceisio cynnig / gwerthu cynnyrch o Gymru yn fwriadol. Mae’r gyfran sy’n gwneud hynny ar ei huchaf yng Ngogledd Cymru (80%) ac ar ei hisaf yn Ne-ddwyrain Cymru (60%).

*“Rydyn ni'n darparu cymaint o fwyd a diod o Gymru â phosib. Rydyn ni'n gweiddi amdano o ben y bryniau!”*
Llety â gwasanaeth, Gogledd

*“Mae ein cynnig o fwyd, diod a diwylliant Cymru yn bwynt gwerthu cryf iawn … dwi’n meddwl ein bod ni fel busnes wir yn gwneud rhywbeth i helpu i wthio hynny.”*
Llety â gwasanaeth, De-orllewin


#### Gall bwytai a thafarndai gael eu cyfyngu gan y brif swyddfa

5.2 Y prif reswm pam fod y gyfran sy’n cynnig bwyd a diod o Gymru yn fwriadol yn y sector bwytai / tafarndai / caffis yn is nag yn y sectorau eraill yw nad oes gan rai lawer o reolaeth dros yr hyn y maent yn ei weini. Mae llawer o dafarndai yn arbennig yn rhan o gadwyni mawr sydd â’u pencadlys y tu allan i Gymru.

*“Rydyn ni'n dafarn Gymreig sy’n eiddo i fragdy yn Lloegr felly dydyn ni ddim yn cael gwerthu bwyd a diod o Gymru”*
Tafarn, Canolbarth

*“Dydyn ni ddim yn dueddol o werthu bwyd a diod o Gymru gan fod rhaid cadw at fwydlen Wetherspoons”*
Tafarn, De-orllewin

## Mathau o fwyd a diod o Gymru sy'n cael eu cynnig / eu gwerthu




*Holwyd C13 i weithredwyr sy'n gwerthu / cynnig bwyd a diod o Gymru yn fwriadol*

### Cynnig eang o Gymru


5.3 Mae gweithredwyr sy'n cynnig bwyd a diod o Gymru yn cynnwys amrywiaeth o wahanol fathau, a chynhyrchion llaeth, cig a becws yw'r rhai mwyaf cyffredin.

*“Rydyn ni'n cyrchu pysgod lleol a hefyd yn gwneud bwyd Cymreig fel caws pob a tharten sawrus caws a chennin.”*
Caffi, Gogledd

*“Mae ein holl fwyd a diod yn dod o Gymru.Jamiau lleol, bara, popeth. Mae’r cyfan yn y pecynnau croeso.”*
Llety hunanddarpar, Gogledd

*“Mae caws pob Cymreig yn rhan annatod o’n bwydlen. Rydyn ni hefyd yn gweini cacenni cri a bara brith.”*
Llety hunanddarpar, Gogledd

## Dulliau o hysbysu cwsmeriaid




*Holwyd C14 i weithredwyr sy'n gwerthu / cynnig bwyd a diod o Gymru yn fwriadol*

### Mae'r rhan fwyaf yn gwneud rhywbeth i hyrwyddo'r cynnig o Gymru

5.4 Os yw busnesau'n cynnig bwyd a diod o Gymru yn fwriadol, maent fel arfer yn cyfathrebu hynny i'w cwsmeriaid. Mae amrywiaeth o ffyrdd o wneud hyn, a ddangosir uchod.


*"Rydyn ni'n cynnig bwyd a diod o Gymru, yr ydyn ni'n eu hysbysebu ar y cyfryngau cymdeithasol"*
Tafarn, De-orllewin

*"Os yw pobl yn siarad Cymraeg, fe fyddwn ni'n sgwrsio gyda nhw amdano ond efallai fod hynny'n rhywbeth y dylen ni wneud mwy ohono."*
Llety hunanddarpar, Gogledd

*"Rydym yn ei hysbysebu ar fws Llandudno"*
Llety â gwasanaeth, Gogledd

# 6. Hygyrchedd

## Camau a gymerwyd




### Mae mwyafrif wedi gweithredu

6.1 Mae’r mwyafrif (70%) y busnesau wedi cymryd camau i wneud eu busnes yn fwy hygyrch i bobl ag anghenion hygyrchedd. Mae'r gweithredoedd mwyaf cyffredin yn ymwneud â symudedd.

*“Yn ystod y blynyddoedd diwethaf rydyn ni wedi gwastatau’r dafarn gyda llechi er mwyn ei hygyrchedd felly mae’r cyfan nawr ar un lefel”*
Tafarn, De-orllewin

*“Mae gennym ni un eiddo ‘sy'n addas i bobl anabl’, ac un arall sy’n gwbl hygyrch i bobl anabl gydag ystafelloedd gwely ar y llawr gwaelod ac ystafell wlyb”*
Llety hunanddarpar, De-orllewin

6.2 Fodd bynnag, mae hygyrchedd yn bwnc llawer ehangach na symudedd yn unig ac mae'n cynnwys, er enghraifft, anghenion gweledol, clywedol a gwybyddol. Mae addasu ar gyfer y mathau eraill hyn o anghenion hygyrchedd yn llai cyffredin, fel y mae dealltwriaeth o'r anghenion hyn (yn arbennig o berthnasol i C16, a drafodir yn ddiweddarach). Fodd bynnag, mae rhai gweithredwyr wedi gwneud newidiadau ar gyfer anghenion hygyrchedd y tu hwnt i symudedd yn unig.

*“Byddwn ni'n newid y ffeithluniau ar y paneli i’w gwneud yn haws eu defnyddio i bobl ag awtistiaeth a niwroamrywiaethau”*
Atyniad, Canolbarth

*“Mae gennym ni oleuadau yn eu lle ar gyfer pobl â phroblemau golwg, rampiau a hefyd opsiynau di-glwten a fegan ar y fwydlen”*
Bwyty, Gogledd

*“Mae gennym ni glustogau dirgrynol i bobl fyddar allu clywed y larwm tân ac rydyn ni’n croesawu cŵn tywys”*
Llety â gwasanaeth, De-orllewin

**Mae rhai yn gweld cyfle**

6.3 Tra bod rhai gweithredwyr yn gweld addasu eu hadeiladau fel ffwdan (a drafodir yn ddiweddarach o dan C16), mae eraill yn gweld y cyfleoedd a ddaw yn sgil bod yn fwy hygyrch.


*“Rydyn ni wedi ymuno â sefydliad lleol ac yn mynd i addasu padlfyrddio ar gyfer y rhai sydd â phroblemau anabledd”*
Atyniad, Canolbarth

*“Rydyn ni am adeiladu tŷ cwbl hygyrch i gwsmeriaid ag anghenion hygyrchedd”*
Llety hunanddarpar, Gogledd

*“Rydym wedi sefydlu busnes cychod arall o Abergwaun i annog cwsmeriaid anabl a mwy o fasnach”*
Atyniad, De-orllewin

*“Un o’r rhesymau dros ein llwyddiant yw ein bod wedi cymryd cyngor Croeso Cymru yn ôl yn 2008 i wneud cynllun un o’n heiddo yn gwbl hygyrch. O ganlyniad, mae gennym ni bellach gerbydau anabl, cawodydd cerdded i mewn, cadair olwyn i'r gawod ac amrywiol bethau eraill. Mae wedi agor marchnad newydd i ni.”*
Llety hunanddarpar, Gogledd

## Rhesymau dros beidio â gweithredu




*Holwyd C16 i fusnesau nad ydynt yn cymryd camau i ddod yn fwy hygyrch*

### Camddealltwriaeth o'r pwnc

6.4 Y rheswm mwyaf cyffredin o bell ffordd dros beidio â gweithredu yw pan fo gweithredwyr yn credu na allant wneud dim. Mae hyn yn aml yn ymwneud ag eiddo hŷn, yn enwedig os ydynt yn adeilad rhestredig.

*"Rydym yn adeilad rhestredig gradd felly ni allwn symud bricsen heb roi gwybod i'r awdurdodau"*
Tafarn, Canolbarth

*"Nid yw'n bosibl gwneud y castell yn fwy hygyrch"*
Llety â gwasanaeth, De-orllewin

*"Mae wedi'i restru â seren gradd 2 ac mae'n dyddio o'r 15fed ganrif felly nid yw'n ymarferol gwneud dim, gan fod yr ystafelloedd i fyny'r grisiau"*
Llety hunanddarpar, Gogledd

6.5 Er y gall fod rhesymau pam mae gwella mynediad *symudedd* yn lletchwith neu hyd yn oed yn amhosibl, gellid codi ymwybyddiaeth ymhlith gweithredwyr i ddeall bod llawer o ffyrdd eraill y gallent ddiwallu anghenion hygyrchedd.

### 'Ddim yn bwysig i'r cwsmeriaid rydyn ni'n eu denu'

6.6 Gall y datganiad hwn fod yn wir am rai busnesau. Fodd bynnag, byddai defnyddwyr ag anghenion hygyrchedd yn eu grŵp yn debygol o wirio ymlaen llaw p'un a all lleoliad maen

nhw’n ymweld ag ef / yn aros ynddo ddiwallu'r anghenion hynny. Os nad yw busnes yn hygyrch ac felly nad yw’n hyrwyddo ei fod yn hygyrch, efallai na fydd yn cael yr ymchwiliad yn y lle cyntaf, gan eu harwain efallai i gredu nad yw bod yn hygyrch yn bwysig.